Fel arfer, bydd tendinopathi yn gwella, naill ai ar ei ben ei hun neu drwy orffwys, defnyddio iâ a thriniaethau fel pigiadau corticosteroid, orthoteg (dyfeisiau i gefnogi'r droed), ffisiotherapi, ymarferion corfforol neu ymestyn a meddyginiaethau lleddfu poen. Os nad yw'r rhain yn gweithio, gellir ystyried llawdriniaeth. Mae NICE wedi ystyried defnyddio therapi siocdonnau allgorfforol fel opsiwn triniaeth arall.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Y driniaeth

Mewn therapi siocdonnau allgorfforol, defnyddir dyfais i basio siocdonnau acwstig (sain) drwy'r croen i'r ardal yr effeithir arni. Credir bod hyn yn helpu i wella'r cyflwr, ond ni wyddys sut mae'n gweithio.

Mae dyfeisiau ynni isel ac ynni uchel ar gael. Gall dyfeisiau ynni uchel achosi mwy o boen, a gall fod angen defnyddio anesthetig lleol. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod defnyddio anesthetig lleol i gynnal y driniaeth yn cynnig llai o fudd. Mae dyfeisiau ynni isel yn achosi llai o boen, gellir eu defnyddio dro ar ôl tro ac nid oes angen defnyddio anesthetig lleol. Mae llawer o gleifion yn cael cyfres o driniaethau ond gallai fod yn un sesiwn. Efallai y caiff canllawiau uwchsain eu defnyddio er mwyn helpu i osod y ddyfais yn y man cywir.

## Buddiannau a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynodd nad oedd digon o dystiolaeth i wybod pa mor dda y mae therapi siocdonnau allgorfforol ar gyfer trin tendinopathi gweyllen y ffêr yn gweithio. Roedd y pum astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 821 o gleifion.

Nid yw'r dystiolaeth ynghylch pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio yn glir oherwydd y ffordd y cafodd ei chyflawni, a'r ffaith bod pob astudiaeth wedi mynd ati i fesur llwyddiant y driniaeth mewn ffordd wahanol. Ond nododd rhai cleifion yn yr astudiaethau eu bod yn cael llai o boen a bod gweyllen y ffêr yn gweithio'n well, hyd at flwyddyn ar ôl y driniaeth.

Dangosodd yr astudiaethau fod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r driniaeth yn cynnwys y croen yn cochi, cleisiau, poen, poen yng nghroth y goes a diffyg

